Ysgrifennu er Perswâd *OCHR 1*

Mae llawer o ffurfiau gwahanol o ysgrifennu er perswâd, ond maent i gyd yn ceisio ein perswadio i feddwl neu weithredu mewn ffordd benodol. Gall hysbysebion geisio ein perswadio i brynu'r cylchgrawn diweddaraf; gall taflenni neu bosteri geisio ein perswadio i frwsio'n dannedd neu ailgylchu ein sbwriel.

Syniadau i beri i'ch darllenydd eisiau darllen ymlaen....

Dechrau drwy feddwl am eich pwnc a'ch darllenwyr:

- Beth yw eich barn? Gwnewch restr o'r rhesymau dros hynny.
- Pam ddylai pobl gytuno â chi. Meddyliwch am y dystiolaeth sy'n ategu eich rhesymau fel bod y ddadl yn gryfach.
- Pwy rydych yn ceisio'u perswadio? Dewiswch y dadleuon a'r dystiolaeth a fydd yn apelio atynt

Dewis a threfnu eich gwybodaeth:

- Dewiswch y dystiolaeth orau i gefnogi'ch dadl.
- Gall pob rheswm, yn ogystal â'r dystiolaeth, fod yn baragraff yn eich gwaith ysgrifennu.
- Penderfynwch ar y drefn orau ar gyfer eich paragraffau – a fyddwch yn dechrau gyda'ch dadl gryfach neu ei chadw i'w rhoi ar y diwedd?

Defnyddiwch y technegau hyn:

- Dewiswch eiriau neu ymadroddion cyswllt i gysylltu eich paragraffau â'i gilydd yn llyfn.
- Defnyddiwch ffeithiau'n hytrach na sylwadau perswadiol yn unig.
- Dychmygwch yr hyn y byddai rhywun sydd â barn i'r gwrthwyneb yn ei ddweud, ac esboniwch pam rydych yn anghytuno.
- Gallech ddefnyddio cwestiynau i ddenu eich darllenydd.
- Gallech beri i'ch darllenydd feddwl bod pawb arall yn meddwl fel hyn, e.e. sylwadau perswadiol fel "Mae pawb yn cytuno bod...", "Rydym i gyd yn gwybod bod...".
- Gallech orliwio'r ffeithiau!

Speech bubbles:

Credaf fod.....

Os mai dyna'r achos, yna felly..... Pwynt arall i'w ystyried yw

Ond mae pawb yn gwybod hynny..... Mae'n glir bod.... Pwy a allai wadu hynny?

I grynhoi, rwyf wedi dangos bod.....

Nawr darllenwch linellau cyflwynol Geraldine McCaughrean.

Ysgrifennu er Perswâd *OCHR 2*

Eich tro chi nawr

Mae Geraldine McCaughrean wedi dechrau'r darn hwn o ysgrifennu er perswâd. Chi fydd yn parhau ag ef.

Beth yw eich hoff le yn y byd cyfan?

Gwnewch restr o resymau pam mae mor arbennig.

Dychmygwch eich hoff le. Cofiwch y golygfeydd, y seiniau, yr aroglau neu'r blasau. Cofiwch sut rydych chi'n teimlo pan fyddwch yno.

Dychmygwch yr hyn y gallai pobl sy'n anghytuno â chi ei ddweud. Meddyliwch am leoedd a gallai fod yn well ganddynt. Sut byddwch yn eu hargyhoeddi mai eich lle chi yw'r lle gorau.

1. Cyn i chi ysgrifennu...

- Darllenwch y paragraffau agoriadol a defnyddiwch y cwestiynau i'ch helpu gyda'ch syniadau. Dewiswch y lle y byddwch yn perswadio pobl mai ef yw'r gorau yn y byd. Penderfynwch bwy rydych yn ceisio'i argyhoeddi – plant eraill neu oedolion?
- Lluniwch gynllun byr. Er enghraifft:
  - Eich paragraff cyntaf, yn parhau o linellau agoriadol Geraldine, gan gyflwyno eich hoff le.
  - Rhesymau pam mae mor arbennig, gyda thystiolaeth i gefnogi pob pwynt. Gellir trefnu'r rhain mewn paragraffau.
  - Casgliad: un paragraff yn dweud pam ddylai pobl fynd i'r lle rydych wedi'i ddewis.
- Dewiswch y drefn orau ar gyfer eich rhesymau.

2. Wrth i chi ysgrifennu...

- Defnyddiwch dystiolaeth dda i gefnogi pob un o'ch rhesymau.
- Defnyddiwch dechnegau perswadio i argyhoeddi eich darllenydd, e.e. dewiswch ansoddeiriau pwerus a phwysleisiwch yr holl bwyntiau da.
- Defnyddiwch gysyllteiriau i gysylltu syniadau o fewn brawddegau, e.e. os... yna..., a chysylltu paragraffau, e.e. felly, ar ben hynny, mae hyn yn dangos.
- darllenwch bob paragraff eto wrth i chi ei orffen, i wirio ei fod yn gwneud synnwyr a bod ganddo atalnodi cywir.

3. Ar ôl i chi orffen...

- Darllenwch eich darn cyfan. Ydych chi wedi parhau o'r darn agoriadol ac egluro eich dadl? Ydy'r diwedd yn glir ac yn gryf?
- Mae'n bosib y byddwch eisiau i'ch paragraff olaf sôn am y pwyntiau mwyaf pwysig ynghylch pam y dylai pobl ymweld â'ch hoff le.
- Gwiriwch nad yw eich darn olaf yn hwy na 750 gair, heb gynnwys dechrau Geraldine.
- Gwiriwch eich sillafu a chynhyrchwch fersiwn derfynol.